W935. S. 212

# GALAR-GAN,

A GYFANSODDWYD AR YR ACHLYSUR O

FARWOLAETH

## GWENLLIAN WILLIAMS,

BAILI COCH,

*Yr hon a ymadawodd a'r byd hwn Mehefin 23, 1849, yn 51 mlwydd oed, ac a fu yn aelod yn y Taihirion, chwaneg i ddwy flynedd ar ugain.*

GAN JOHN MORGAN.

"Gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd."—DAT.

1 Y mae angeu yn teyrnasu
Ar y dê a'r aswy law,
Er mawr glywed sydd am dano,
Para mae yn Frenin braw;
Datod c'lymau rhwng perth'nasau,
Draw ac yma 'n nhir y byw:
Dychwel cyrff i'r ddaear obry,
A'r ysbrydoedd mae at Dduw.

2 Angeu sydd y dyddiau yma
Yn rheoli tref a gwlad—
Mae myrddiynau o had Adda
Yn garneddau tan ei draed;
O'r canlyniad ddaith o ddrylliad,
Hen gyfamod dyn a Duw;
Marwolaethau yr holl oesau,
Grym y gyfraith santaidd yw.

3 Ar y drydydd dydd ar hugain
O Fehefin, cofir hyn,
Mil wyth cant a naw a deugain,
Fe ddaeth angeu yn ei rym;
Ysgar wnaeth rhwng corff ac enaid
GWENLLIAN WILLIAMS, 'r hon fu byw
Ddwy ar ugain o flyneddau,
Yn aelod hardd o eglwys Dduw.

X2053 1707z

4 Hi wynebodd at y brodyr,
Yn y boreu i dŷ ei Thad;
O Assyria yn ei dagrau,
'Mofyn 'r oedd faddeuant rhad:
Mewn gwir deimlad o ddwysbigiad
Yn ei henaid ar y ma's;
Pob gau noddfa wedi darfod,
Achwyn 'r oedd ar bechod cas.

5 Yr îs-fugail oedd pryd hyny
Yn bugeilio 'r eglwys hon,
DAVID JONES a'i ddoniau llithrig,
Heddyw 'n llwch o dan y don;
Ar ei draed yn syth fe safodd,
Gwelodd Gweni 'n eithaf trist;
Fe ddefnyddiodd eiriau'r nefoedd,
Er amlygu Iesu Grist.

6 Wedi aros rhai wythnosau,
Gyda'r plant yn wanaidd iawn,
Torwyd ati gan y brodyr,
Carai fod yn aelod llawn.
O ba'i hi yn llawn o ddagrau,
A'i serchiadau 'n fflam o dân;
Carwn wneuthur cof am Iesu,
Yr hyn ni wnes i erioed o'r bla'n.

7 Daeth y Sabboth, daeth y brodyr,
A'r gweinidog yno i gwrdd;
Gweni Williams yn y canol,
Safai 'n gyhoedd wrth y bwrdd;—
Gwedi holi a chynghori,
Rhoddwyd iddi law ar go'dd;
'R oedd y nefoedd yn dyferu,
A'r holl deulu wrth eu bodd.

8 Wedi gwledda, cododd allan,
Nid i chwareu, fel mai rhai;
Dyfal weithiodd yn y winllan,
Tra fu yn y tŷ o glai:
Darllain, canu, a myfyrio,
Gweddi ddirgel oedd i'r lan—
Harddai grefydd yn ei geiriau,
A'i 'fforddiadau yn mhob man.

9 Nid oedd ysgol y Taihirion
Ar y Sabboth ddim yn llawn,
Nes cael Gweni yn ei dosbarth,
O mor fuddiol oedd ei dawn;
Parod oedd i gynorthwyo
Rhai oedd gwanaidd yn y gwaith,
Mor ragorol y darllenai,
Mor nefolaidd oedd ei hiaith.

10 Yn mil wyth-cant saith a deugain,
Manol chwiliodd Lyfr Duw;
Hi adroddodd rai ugeiniau
O bennodau yn ein clyw;
Yr un gauaf y trysorodd,
O'r hen Salmau ddegau maith;
Chwilio'r Llyfr oedd ei chysur,
Tra fu yma ar ei thaith.

11 Eglwys Crist yn y Taihirion,
Cefaist golled ar dy daith—
Collaist weddi ffyddiog Gweni,
Faint oedd hyny yn y gwaith:
Collaist un oedd yn dy garu,
Profodd hyn trwy roddi'n rhad;
Gyda'r blaenaf hi ddiwallai
Angenrheidiau tŷ ei Thad.

12 Gwraig rinweddol ydoedd Gweni,
Trefnai thalu'n brydferth iawn;
Ffrwythau crefydd oedd yn amlwg
Ymhob gweithred a phob dawn:
Egwyddorai bawb a fyddai
Yn cartrefu yn eu pyrth;
Canwyll oleu ar ei gyrfa,
O Gaersalem byth na syrth.

13 Angeu, angeu, pa'm cymeraist
Un mor anwyl yn ei thref;
Un brofiadol, un ragorol,
Hi ddiwallai weison nef:
Hi a gododd faner Iesu,
Daliodd bwys a gwres y dydd—
Gallaist daro nid niweidio,
Aeth o'i rwymau oll yn rydd.

14 Angeu cefeist, Gweni William,
Er ein galar dan dy droed ;
Gorfod rhoddi 'i llwch i lechu,
Yn un ar ddeg a deugain oed.
Mae allweddau yr holl feddau
Wedi eu cym'ryd er ei fri,
Gan yr Iesu pan yn trengu
Draw ar fynydd Calfari.

15 Angeu, paid a gorfoleddu
Er y gallu i dori lawr ;
Fe ddianga holl blant Sarah
O dy feddau dyrfa fawr :
Mae darpariaeth ar eu cyfer
Na chlywodd clust yngwlad yr hedd—
Rhaid eu cyrchu o bob carchar,
Gorfoleddant ar y bedd.

16 Bendith fyddo ar eu theulu,
Sy'n galaru yn y glyn ;
Dyrys droion, chwyrn awelon
Sydd i'w cwrdd yr ochr hyn,—
Dros brydnawn y bydd wylofain,
Rhai a ddysgwyd gan y nef
I ddywedyd, Bendigedig
Fyddo ei enw santaidd Ef.

17 Nid oes genym er ei cholli
Ond ymdrechu ar y daith ;
Arglwydd grasol o'th drugaredd,
Rho dy wyneb ar dy waith ;
Cod y muriau, llanw'r bylchau,
Cofia Sion îs y nen ;
Ti gai'r moliant a'r gogoniant
Pan y delo'r gwaith i ben.

18 Ffarwel briod mi'ch gadewais,
'Mado wnes o'ch mynwes glyd,
Ond gwell imi fynwes Iesu,
Para hon pan losgo'r byd :
Dwys ddymunwch, taer weddiwch,
Am aeddfedrwydd i gyd-gwrdd ;
Mae darpariaeth fawr yr arfaeth,
Fel ryw foroedd ar y bwrdd.